
# Adroddiad Blynyddol 2024-2025

# Ysgol Gymraeg Dewi Sant



**Ysgol Gymraeg Dewi Sant**

**Rhodfa Bryndulais,**

**Llanelli,**

**SA14 8RS**

**01554750081**

**admin@dewisant.ysgolccc.cymru**


**Gwefan: www.ysgolgymraegdewisant.cymru**

X: @ysgoldewisant47

**Ysgol gynradd benodedig Gymraeg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.**

**Nifer y disgyblion ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2024-2025: 454**

Wrth i ni gychwyn ar flwyddyn newydd sbon yma yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant, mae'n braf cael cyfle i edrych nôl ar lwyddiannau y llynedd a dathlu ein datblygiad a'n cynnydd hyd yma.










# Gair wrth yr Uwch Dîm Arwain a Chadeirydd y corff

Mae’r flwyddyn wedi bod yn un brysur ac yn llawn llwyddiannau. Mae safonau’r disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd ac iaith wedi parhau i godi, ac rydym fel Corff yn falch iawn o’r cynnydd. Mae hyn oll yn ganlyniad i waith caled y staff addysgu a’r cymorthyddion, sy’n rhoi eu gorau glas bob dydd er mwyn i bob plentyn gyrraedd ei lawn botensial.

Yn ystod archwiliad ESTYN ym mis Tachwedd, derbyniodd yr ysgol ganmoliaeth uchel ar bob agwedd o’i gwaith. Roedd yn destun balchder mawr i ni i dderbyn adroddiad cadarnhaol iawn ym mis Ionawr.

Un o uchafbwyntiau’r flwyddyn oedd agor yr ardd synhwyraidd newydd, a fydd o fudd mawr i les ac iechyd meddyliol ein disgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Ein nod nesaf yw creu ystafell synhwyraidd yn yr ysgol i gynnig mwy o gyfleoedd i’r plant.

Hoffwn ddiolch yn fawr i’r Pennaeth dros dro, Mrs Helen Garland, am ei harweinyddiaeth ragorol, ac i’r holl staff a rhieni am eich cefnogaeth barhaus.

Gobeithio y byddwch yn cymryd yr amser i ddarllen yr adroddiad llawn ac i ymfalchïo yng ngweledigaeth a llwyddiannau ein hysgol.

Yn gywir,

Michael Bassett Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Dewi Sant



# Aelodau'r Corff Llywodraethol

**Cadeirydd: Mr. M Bassett**

**Is-Gadeirydd: Mr. Kevin Roberts**

**Clerc: Mrs. L Davies**

Ceir trawstoriad o'r gymuned leol ar gorff llywodraethwyr yr ysgol ac fe etholir y Cadeirydd ar ddechrau pob blwyddyn academaidd newydd. Mae'r corff llywodraethol llawn yn cyfarfod unwaith bob tymor ac mae'r Pennaeth yn paratoi adroddiad manwl ar eu cyfer.

| Enw | Categori |
|---|---|
| Mrs Helen Garland | Pennaeth dros dro |
| Mr. Michael Bassett | Cadeirydd ALl |
| Mr. Kevin Roberts | Is Gadeirydd - Rhiant |
| Mr. Steven Davies | Staff - Addysgu |
| Mrs Rhian Evans | Staff - Addysgu |
| Miss Michelle Fisher | Staff - Cynorthwyol |
| Mrs. Heulwen Jones | Awdurdod Addysg Lleol |
| Mrs. Sara Elizabeth Jenkins | Rhiant |
| Mrs. Rhian Rees-Thorne | Rhiant |
| Mr. Geraint Kemp | Rhiant |
| Mr. Lee Davies | Rhiant |
| Miss Claire Mackerras | Rhiant |
| Dr. Lauren Blake | Rhiant |
| Mrs. Sara Jermin | Awdurdod Lleol |
| Parchedig John Treharne | Cymunedol |
| Mr. Euros Jones | Cymunedol |





# Rhieni Lywodraethwyr

Pan fod angen ethol rhiant lywodraethwyr, dosberthir ffurflenni digidol ethol i bob rhiant yn yr ysgol a phan ceir mwy nag un enwebiad fe gynhelir etholiad.  Rhieni sy'n enwebu ac ethol rhiant lywodraethwyr ac maent yn cynrychioli barn rhieni ar y corff.






# Cysylltu

**Os oes gennych unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffech ei rannu gyda'r corff llywodraethol, mae croeso i chi ysgrifennu at y Cadeirydd trwy lythyr neu e-bostio trwy sywddfa'r ysgol.  admin@dewisant.ysgolccc.cymru Croesawn eich cyfraniad bob amser.**

**Ni chynhelir cyfarfod blynyddol i rieni bellach, oni bai bod rhieni eisiau cynnal cyfarfod.  Mae hawl cynnal tri chyfarfod bob blwyddyn trwy gyflwyno deiseb gyda 10% o rieni yr ysgol yn arwyddo'r ddeiseb a nodi pam eu bod eisiau cynnal cyfarfod.**





# Staff Yr Ysgol

**Medi 24 - Gorffennaf 25**

**Pennaeth Dros Dro : Mrs H Garland**

**Pennaeth Cynorthwyol: Mrs S Davies a Miss R Evans (dros dro)**

**Uwch Dîm: Mr S Owen, Mrs R Rees, Miss E Roberts a Miss H Land**

### Athrawon

Miss E Phelps

Miss R Evans

Miss S Johnson

Miss F Anderson

Miss K Necke

Miss K Evans

Miss E Roberts

Mr R Llewelyn

Mrs E Owen

Miss C Thomas

Mrs S McCue

Miss K Thompson

### CALU

Mrs C Montinaro

Mrs L Ashford

Mrs G Rees

Miss M Fisher





### Cynorthwywyr

Mrs S Hanbury

Miss M Davies (A)

Mrs A Osbourne-Yip

Miss J Hopkins (A)

Miss A Morgan

Mrs R Peregrine

Mrs E Griffiths

Mrs K Hillier

Mrs B Pound

Mrs D Phillips

Mrs R Purdue

Miss A James

Miss E Latham

Mrs G Bowen

## Athrawon Teithiol Cerdd

Mr J Morgan

Miss S Rees

Mr P Shingler

Mr R Walters

Mrs G Conock-Evans

Mrs H Evans

## Gofalwraig

Mrs A James

## Swyddogion Gweinyddol

Mrs S Arthur

Miss A Rees

## Gorchwylwyr Cinio

Mrs S Hanbury

Mrs J Hopkins (A)

Mrs A Osbourne-Yip

Miss M Davies(A)

Miss A Morgan

Mrs R Peregrine

Mrs K Hillier

Mrs B Pound

Mrs D Phillips

Mrs R Purdue

Miss A James

Miss E Latham

Miss M Fisher

# **Estyn**

Cynhaliodd Estyn arolygiad lawn yn ystod tymor yr Hydref 2024. Roedden fel ysgol yn falch iawn o'r adroddiad.  O ganlyniad, rydym wedi bod yn rhannu ein harferion llwyddiannus gydag ysgolion eraill ar draws awdurdodau addysg Cymru.

https://www.estyn.llyw.cymru/app/uploads/2025/01/Adroddiad-arolygiad-Ysgol-Gymraeg-Dewi-Sant-2025.pdf



# Polisi Iaith Yr Ysgol

Cymraeg yw iaith swyddogol Ysgol Gymraeg Dewi Sant. Addysgir yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg nes bod y plant yn dechrau ym mlwyddyn 3 a chyflwynir Saesneg fel rhan o'r maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu bryd hynny.  Cymraeg yw cyfrwng iaith yr ysgol a chynhelir pob gwasanaeth, cyfarfod neu weithgarwch cyn, yn ystod ac wedi oriau'r ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl ac aelod o staff.  Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn rhugl ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol a disgwylir i'n disgyblion barhau gydag addysg trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl trosglwyddo i'w hysgolion uwchradd hefyd.



# Anghenion Dysgu Ychwanegol

Rydym yma i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol drwy hyrwyddo cyflawniad a llesiant i bawb. Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol ychwanegol ac anabledd yng Nghymru wedi newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno system fwy hyblyg ac ymatebol o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol ychwanegol neu anableddau ac mae'n ymdrechu i ddarparu system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr Cymru. Mae'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd wedi'i chyflwyno'n raddol o fis Medi 2021.

Ein bwriad yw rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu i'w lawn botensial, gan gofio anghenion a gallu'r unigolyn. I'r mwyafrif o ddisgyblion, mae'r anghenion hynny'n cael eu diwallu yn y dosbarth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen cymorth ychwanegol ar nifer fach o blant. Credwn fod adnabyddiaeth gynnar ac ymyrraeth briodol yn gwella disgwyliadau plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ein nod yw creu amgylchedd ysgol sy'n meithrin anogaeth, derbyniad, parch a sensitifrwydd fel y gall pob plentyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol brofi llwyddiant yn unol â'u cyfyngiadau unigol eu hunain. Mae gennym nifer o strategaethau cymorth y gellir eu cynllunio i ddiwallu anghenion plentyn unigol, gan gynnwys anghenion Plant sy'n Derbyn Gofal. Os bydd angen, byddwn yn ceisio cefnogaeth broffesiynol gan asiantaethau allanol er mwyn diwallu anghenion y plentyn yn llawn.

Miss  Elliw Roberts yw cyd-gysylltydd anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol.





## Iechyd a Diogelwch

Rydym yn dilyn trefniadau diogelwch tynn yn ddyddiol. Mabwysiadwyd a gweithredwyd ar asesiadau risg yr Awdurdod Lleol er mwyn cydymffurfio gyda'r canllawiau ganddynt. Mynychir cyfarfodydd iechyd a diogelwch yn achlysurol. Caiff arolygon blynyddol eu gwneud o offer ac o'r safle.

## Bwyta Ac Yfed Yn Iach

Mae'r ysgol yn hybu'r pwysigrwydd o ffordd iach o fyw a chaiff ei gynnwys yn yr arlwy addysgiadol o fewn y dosbarthiadau. Mae gennym Gyngor Ysgol Iach sy'n cynnwys disgyblion etholedig sydd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion ar bwysigrwydd o ffordd iach o fyw. Rydym yn annog plant i ddod â phecyn bwyd iach i'r ysgol a ffrwyth fel byrbryd, ac mae bwydlen ginio'r ysgol yn unol â darpariaeth bwyta'n iach yr Awdurdod Lleol.

## Prosbectws a Pholisiau'r Ysgol

Gellir darllen ein prosbectws ar wefan yr ysgol. Adolygwyd polisïau a strategaethau'r ysgol yn ôl yr angen wrth ymateb i newidiadau cenedlaethol.

## Cyfleusterau Toiled

Mae gan yr ysgol chwe bloc o doiledau ar gyfer y disgyblion a phump tŷ bach ar gyfer staff sy'n cynnwys un tŷ bach anabl. Caiff y cyfleusterau eu glanhau'n ddyddiol gan wasanaeth glanhau'r Awdurdod Addysg.

# Ein Gweledigaeth

*Ymdrech a lwydda*

Mae Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn ysgol hapus, bywiog a chroesawgar lle gwelir pawb yn cyd-weithio i ddarparu amrywiaeth o brofiadau ac ystod o gyfleoedd gyda'r nod o osod sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol pob plentyn.

Ysbrydolwn ein disgyblion trwy gyflwyno cwricwlwm eang a chyffrous. Ein nod yw i annog pob disgybl i feithrin hunanhyder yn eu gallu personol: mae gennym ddisgwyliadau uchel sy'n rhoi pwyslais ar bawb i geisio eu gorau glas.

Mae plant yn dysgu orau pan yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel felly mae holl staff yr ysgol yn ymroddedig i gefnogi'n disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau eu bod yn barod ac yn abl i ddysgu. Anelwn at sicrhau fod profiadau dysgu'r disgyblion yn berthnasol, cyffrous a phwrpasol ac wedi eu seilio ar ddatblygu sgiliau sylfaenol.

## Ein Gweledigaeth

Hyrwyddwn ethos positif ac awyrgylch gyfeillgar a chroesawgar sy'n annog disgyblion hyderus ac iach. Datblygwn ddysgwyr gydol oes sy'n chwilfrydig a dyfeisgar ac yn gwerthfawrogi gwerthoedd moesol ein cenedl a'r byd. Byddant yn ymarfer gwerthoedd craidd yr Ysgol sef i ymfalchïo yn eu Cymreictod, dangos parch a bod yn uchelgeisiol er mwyn datblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus.

## Ein Gwerthoedd

Parch ac Ymddiriedaeth

Lles a Gofal

Hapusrwydd a Mwynhad

Gwydnwch a Hyder

Cymru a Chymreictod

Cymuned a Chynefin

Cymryd risg ac Arloesi

Cefnogaeth a Chydweithio

# Cwricwlwm

**Mae'r pedwar diben wrth wraidd holl weithgarwch yr ysgol er mwyn rhoi'r cyfle i bob plentyn ddatblygu i fod:**

yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes

yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith

yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd

yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Addysgir disgyblion trwy gyfrwng ymholiadau a chwestiynau yn bennaf, lle datblygir sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion, ynghyd a'u dealltwriaeth a gwybodaeth, yn drawsgwricwlaidd. Caiff lles y disgyblion ei gynnwys wrth gynllunio a sail y gweithgarwch yw'r datganiadau o fewn y chwe maes dysgu a phrofiad, sef:

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau (gan gynnwys Addysg Grefyddol ddylai aros yn orfodol i 16 oed)
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu (gan gynnwys ieithoedd tramor modern yng Nghymru, a ddylai aros yn orfodol i 16 oed)
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg (yn cynnwys cyfrifiadureg).

Rydym yn asesu a thracio cynnydd y disgyblion ymhob agwedd o'u gwaith a darperir adborth adeiladol i ddisgyblion ar eu cyrhaeddiad ynglŷn â chyfleoedd pwrpasol iddynt ymateb i adborth yr athrawon er mwyn gwella eu gwaith a'u cyrhaeddiad.

Addysgir disgyblion yr ysgol fesul blwyddyn gwricwlaidd.

# Targedau Cynllun Gwella'r Ysgol

Mae'r cynllun datblygu yn mynd i'r afael a'r blaenoriaethau sy'n deillio o weithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol, blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ynghyd a dadansoddiad o gynnydd a safonau disgyblion. Mae'r ysgol yn dilyn system hunan arfarnu gadarn er mwyn adnabod cryfderau, meysydd gwella a'r ffordd ymlaen ac mae'r Corff Llywodraethol yn rhan o fonitro cynnydd yr ysgol hefyd.

## Prif Flaenoriaethau 2024-25

1. Datblygu arferion asesu ac adborth effeithiol yn gyson ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod gan ein dysgwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u bod yn hyderus i allu gwella eu dysgu yn annibynnol.

2. Diwygio ein system o ddarparu ymyraethau addas a phriodol i gefnogi anghenion ein dysgwyr a sicrhau bod yr holl grwpiau amrywiol o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd gorau posib.

3. Arewinyddiaeth - Datblygu cyd-lynwyr MDaPh i arfarnu effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion a chynllunio'n strategol o fewn eu gweithgorau MDaPh ar gyfer sicrhau dilyniad a pharhad ar draws yr ysgol.

4. Cryfhau rhugldeer mathemategol disgyblion ar draws yr ysgol gan gynnwys cefnogi rhieni gyda'i disgyblion.

## Prif Flaenoriaethau 2025-26

1. Datblygu dulliau systematig i sicrhau bod disgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

2. Gwella rhwyddineb ac effeithiolrwydd adrodd a thracio presenoldeb disgyblion.

3. Datblygu yn bellach systemau 'Asesu ac Adborth' ar draws yr ysgol.

4. Gwella dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth o fewn cymdeithas er mwyn eu datblygu yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus.

## Polisi Amddiffyn Plant

Mae gan yr ysgol bolisi amddiffyn plant sy'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol. Yr aelodau staff dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yw: Mrs H Garland, Mr S Davies, Miss E Roberts a Mrs G Rees. Mae aelodau dynodedig o'r corff llywodraethol hefyd a chyfrifoldeb am ddiogelu ac amddiffyn plant.

## Cyrchfan Ymadawyr

Ceir un ysgol uwchradd yn nalgylch yr ysgol lle mae ein disgyblion yn parhau gyda'u haddysg ar ddiwedd blwyddyn 6 sef Ysgol Gyfun Y Strade. Caiff y disgyblion sesiynau pontio yn ystod Blwyddyn 6 er mwyn cyfarwyddo gyda'u hysgol newydd. Mae angen gwneud cais ar-lein am le mewn ysgol uwchradd i'ch plentyn. Ceir manylion llawn ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

# Yr Ysgol a'r Gymuned

**Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gyda'r gymuned sydd wedi cael eu datblygu ymhellach eto eleni trwy am ameywiol weithgareddau yn cynnwys:**



- Cyflwyniadau gan 'Walk the Bible'
- Gwasanaethau yn fisol gan Tabernacl
- Disgyblion Bl 10 y Strade ar brofiad gwaith yn yr ysgol
- sesiynau rygbi gan y 'Scarlets'
- Sesiynau chwaraon a sgiliau gan Coleg Sir Gar
- Ymweliadau Bl6 i Ysgol Gyfun Y Strade
- Ymweliadau i Lyfrgell Llanelli
- Disgyblion yn ymweld a chartref Ty Mair
- Disgyblion Heol Goffa yn arwain sesiynau ffitrwydd
- Teithiau niferus i'r ardal Leol er mwyn cyfoethogi ein gwaith dosbarth

- Cyfarfodydd tymhorol y Corff Llywodraethol
- Cyfarfodydd is-bwyllgorau'r Corff Llywodraethol
- Ymweliadau i'r ysgol gan aelodau o'r Corff Llywodraethol
- Presenoldeb llywodraethwyr mewn gweithgareddau ysgol
- Adroddiadau a gyflwynir gan lywodraethwyr

**Cynhelir nosweithiau rhieni tymhorol er mwyn:**

- Gosod targedau unigol i ddisgyblion
- Cyfle i rieni weld gwaith ysgol eu plentyn
- Trafod cynnydd ac adroddiadau cynnydd

Cynhelir noson agored dymhorol i rieni newydd sydd a phlant yn dechrau yn yr Uned Feithrin er mwyn eu cyflwyno i'r ysgol.

Cofiwch bod croeso i chi gysylltu ar ysgol bob amser os oes gennych unrhyw bryder am ddatblygiad addysgiadol neu les eich plentyn.

# Llwyddiannau a Digwyddiadau

## Cysylltiadau Cymunedol:

- Big Bocs Bwyd
- STEM Cymru
- Ymweliadau â chartref Tŷ Mair
- Sesiynau sgiliau rygbi gan y Scarlets
- Ymweliadau PC Ali
- Ymweliadau Y Frigâd dan
- Sesiynau Corfforol gan Ysgol Heol Goffa
- Cwis Dim Clem
- Codi arian i Blant Mewn Angen, Apêl y Pabi Coch a Diwrnod Trwyn Coch
- Prosiect Masnachwyr Iau - Tref Llanelli
- Action for Children
- Cwis Llyfrau

## Profiadau:

- Gwasanaeth Cynhaeaf
- Ffa-la-la
- Sioe Cyw – Martin Geraint
- Sioe Nadolig
- Hyfforddiant Beicio
- Hyfforddiant Sgwter
- Eisteddfod Yr Urdd
- Gwasanaethau dosbarth
- Gwasanaeth Ymadael
- Taith yr Iaith
- Gweithio gyda CISP
- Lowri Sion - Stori

## Digwyddiadau Chwaraeon:

- Traws Gwlad ( Pen-bre)
- Pel rwyd
- Athletau
- Twrnamaint Pel droed
- Twrnamaint Rygbi
- Cystadleuaeth Criced
- Sesiynau sgiliau rygbi gan y Scarlets
- Gwersi nofio
- Mabolgampau Ysgol
- Parc Y Scarlets

## Tripiau / Teithiau Preswyl:

- Caerdydd
- Parc Deinosoriaid
- Dan yr Ogof
- Gerddi Fotaneg
- Parc Penbre
- Gwlyptir Llanelli
- Castell Ffonmon
- Ysgol Gorslas
- Theatr Abertawe
- Pentywyn
- Heatherton

## Clybiau ar ôl Ysgol:

- Clwb Hwyl Dewi
- 'Mad Science'
- Clwb Yr Urdd
- Clwb Chwaraeon
- Clwb Darllen
- Cymorth Cyntaf
- Garddio
- Gemau bwrdd

# Datganiad Ariannol 2024/2025

Gwariant Net 2024/25: £1,768,669

Dyraniad ariannu yn ôl fformwla 2024/25: -£1,823,290

Arian wrth gefn a ddygwyd ymlaen o 2023/24: -£2,320

Arian wrth gefn yn cario drosodd i 2025/26: £52,301

## Dyddiadau'r Flwyddyn Academaidd 2025/26

| Tymor | Tymor yn dechrau | Gwyliau Hanner Tymor | Tymor yn gorffen |
|---|---|---|---|
| **Hydref 2025** | Dydd Mawrth 2il o Fedi | 27/10/25 – 31/10/25 | Dydd Gwener 19eg o Ragfyr |
| **Gwanwyn 2026** | Dydd Llun 5ed o Ionawr | 16/2/26 – 20/2/26 | Dydd Gwener 27ain o Fawrth |
| **Haf 2026** | Dydd Llun 13eg o Ebrill | 25/5/26 – 29/5/26 | Dydd Llun 20fed o Orffennaf |



# Gair i Gloi

Braint yw cyfrannu at yr adroddiad hwn, sy'n amlygu rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf yn yr ysgol. Fel y gwelwch, cynhaliwyd amrywiaeth eang o weithgareddau er mwyn darparu profiadau cyfoethog a gwerthfawr i'n disgyblion. Fel ysgol, rydym yn ymfalchïo yn y cyfleoedd hyn, ac estynnaf fy niolch diffuant i bob aelod o staff am eu hymrwymiad a'u gwaith caled i'w gwneud yn bosibl. Diolch hefyd i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus i'ch plant – mae'r cydweithio agos rhyngom oll yn hanfodol er mwyn llwyddo.

Yn ystod y flwyddyn, cawsom arolygiad gan Estyn, a phleser o'r mwyaf oedd rhannu'r adroddiad cadarnhaol gyda chi.

Bu'r flwyddyn yn llawn bwrlwm unwaith eto. Cafwyd agoriad swyddogol i'n gardd synhwyraidd, datblygwyd ein hardaloedd awyr agored ymhellach, a pharhaodd y *Big Bocs Bwyd* i gefnogi ein teuluoedd. Mae ein cysylltiadau â'r gymuned ehangach yn parhau i fod yn rhan allweddol o'n gwaith – ac eleni gwelsom lwyddiannau nodedig megis disgyblion Blwyddyn 6 yn cipio'r wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Masnachwyr Ifanc Llanelli unwaith eto, a disgyblion Blwyddyn 4 yn ennill cystadleuaeth genedlaethol y cwis llyfrau.

Bu hefyd yn flwyddyn brysur o berfformiadau a chystadlaethau – ar lwyfannau ac ar gaeau, yn lleol ac yn genedlaethol. Rwy'n hynod falch o'n disgyblion am eu paratoi diwyd, eu hymroddiad a'u brwdfrydedd, boed mewn chwaraeon, coginio, cerddoriaeth, canu, dawnsio neu berfformio. Cafwyd cyfle i arddangos eu doniau nid yn unig yn Llanelli, ond hefyd ar lwyfannau cenedlaethol megis Eisteddfod yr Urdd ym Margam. Yn ogystal, bu disgyblion yn cymryd rhan mewn llu o gystadlaethau a gwyliau chwaraeon, gan ddangos eu doniau amrywiol mewn nifer o feysydd. Llongyfarchiadau gwresog i bob un ohonynt – mae'n bleser pur i'w cynrychioli ym mhob man, ac rydym yn falch iawn ohonynt.

Diolch o galon i'n llywodraethwyr a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cefnogaeth a'u hymroddiad diflino dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch hefyd i chi fel rhieni am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus, ac i'n disgyblion am eu hegni a'u brwdfrydedd. Edrychwn ymlaen at flwyddyn arall o gydweithio er lles pob un o'n plant.

Cofion cynnes,
**Helen Garland**
Pennaeth Dros Dro

# Ysgol Gymraeg Dewi Sant




**Ysgol Gymraeg Dewi Sant**

**Rhodfa Bryndulais,**

**Llanelli,**

**SA14 8RS**

**01554750081**